# ROBERTS, RICHARD (1874 - 1945), gweinidog, diwinydd a llenor

**Enw:** Richard Roberts
**Dyddiad geni:** 1874
**Dyddiad marw:** 1945
**Priod:** Anne Catherine Roberts (née Thomas)
**Rhiant:** Margaret Roberts (née Jones)
**Rhiant:** David Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog, diwinydd a llenor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Derwyn Jones

Ganwyd 31 Mai 1874, mab David a Margaret Roberts (gynt Jones). Yr oedd ei dad yn weinidog ar eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Rhiw, Blaenau Ffestiniog. Addysgwyd ef yn Liverpool Institute High School, coleg y Brifysgol, Aberystwyth, a choleg diwinyddol y Bala. Bu'n weinidog gyda'r Symudiad Ymosodol yng nghylch Caerdydd, 1896-98. Yna, bu'n gynorthwywr ac ysgrifennydd i'r Prifathro T. C. Edwards y Bala, 1899-1900. Bu'n weinidog ar eglwys Gymraeg Willesden Green, Llundain, 1900-03. Priododd ag Anne Catherine Thomas yn 1902 a bu iddynt dair o ferched. Bu'n weinidog ar eglwys Bresbyteraidd S. Paul's Bayswater, 1903-10 ac eglwys Bresbyteraidd Crouch Hill, 1910-15. Etholwyd ef yn Gadeirydd Ffederasiwn Eglwys Rydd y Brifddinas yn 1911. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas y Cymod a bu'n Ysgrifennydd iddi, 1915-16. Ymfudodd i'r Amerig lle bu'n weinidog ar Eglwys y Pererinion, Brooklyn, Efrog Newydd, 1917-21; Eglwys Bresbyteraidd yr Amerig, Montreal, 1921-26; Eglwys Sherbourne, Toronto, 1927-38. Yr oedd yn ddarlithydd mewn diwinyddiaeth yng ngholeg Emmanuel, Toronto, 1929-32. Ymunodd ag Eglwys Unedig Canada pan gwblhawyd yr Undeb yn 1925. Bu'n Llywydd Eglwys Unedig Canada, 1934-36.

Gwnaeth waith mawr gyda Chynadleddau Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr, Cynhadledd C.O.P.E.C. a'r Mudiad Eciwmenaidd. Traddododd yr ' Wood Lecture ' ym Mhrifysgol Mount Alison, Canada, yn Hydref 1944 ar y testun ' Rhyddid a Chymdeithas '.

Yn 1937 derbyniodd radd D.D., er anrhydedd gan Brifysgol Cymru.

Symudodd ef a'i briod i Efrog Newydd ac yno y bu farw 10 Ebrill 1945.

Yr oedd yn llenor toreithiog. Ceir ysgrifau ganddo yn *Cymru (O.M.E.)*, *The Hibbert Journal* &c. a chyhoeddodd lawer o lyfrau. Yn eu plith ceir: *Robert Owen*, (traethawd buddugol yn eisteddfod Genedlaethol Lerpwl 1900) ' *Llyfrau ab Owen* ', ymddangosodd rhan I yn 1907 a rhan II yn 1910. *The Renascence of Faith*, 1912; *The Church in the Commonwealth*, 1916; *The Unfinished Programme of Democracy*, 1919; *The Jesus of Poets and Prophets*, 1919; *The Untried Door*, 1920; *The New Man and the Divine Society*, 1923; *The Gospel at Corinth*, 1924; *The Christian God*, 1928; *The Preacher as Man of Letters*, 1930; *The Strange Man on the Cross*, 1934; *The Contemporary Christ*, 1938 &c.

## Awdur

**Derwyn Jones**

## Ffynonellau


*Who was who?*, 1941-50

*Y Goleuad*, 18 Ebrill, 9 Mai a'r 18 Gorffennaf 1945

*Y Drych*, 15 Mai 1945

*Who's who?*


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 85178728

Wikidata: Q20734304


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu